



Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl St David's
36 Rhodfa'r Dwyrain
Y Rhyl
LL18 3AN**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

3 Tachwedd 2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Preswyl St David's

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Oedolion Heb Ofal Nyrsio
Darparwr Cofrestredig	St David's Care Limited
Lleoedd cofrestredig	52
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	13 Tachwedd 2019
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio ei wasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol dilynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol.

Crynodeb Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Lleolir Cartref Preswyl St David's yn agos at lan y môr y Rhyl. Mae'r ystafelloedd ar dri llawr. Mae'n darparu cymorth i bobl dros 50 oed, sydd ag amrywiaeth eang o anghenion cymorth. Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn, er mwyn edrych yn benodol ar ansawdd y gofal a'r arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu yn St David's. Mae'r bobl sy'n cael gwasanaeth yn hapus gyda'u gofal a'u cymorth. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda, ac maent yn mwynhau gweithio yn St David's.

Gwelsom fod angen i'r cynlluniau gofal a'r asesiadau risg fod yn fwy manwl er mwyn sicrhau y caiff anghenion unigol y bobl eu deall. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau yr ymgynghorir â'r bobl ynghylch eu cynlluniau gofal, a'u bod yn cael cyfleoedd i'w hadolygu. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol ac mae mesurau rheoli heintiau da ar waith er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel. Ar hyn o bryd, dim ond un liffert sy'n gweithio yn y cartref, sy'n achosi oedi ar adegau allweddol; mae'r gwasanaeth yn parhau i ystyried sut y gellir gwella hyn.

Llesiant

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu trin â pharch ac urddas, a bod y staff yn gyfeillgar. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu dweud beth sydd ei angen arnynt a'u bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Gwnaethant ddweud eu bod fel arfer yn cael cymorth pan fyddant am ei gael, ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed ac maent yn deall yr angen i roi gwybod am unrhyw bryderon. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn St David's.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i gyflawni eu llesiant. Gwelsom fod gan y cartref fesurau rheoli heintiau da ar waith, yn unol â'r canllawiau diweddaraf gan gyrrff cyhoeddus perthnasol. Dengys cofnodion fod y bobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol os ydynt yn dewis gwneud hynny. Gall y bobl ddilyn eu harferion eu hunain cymaint â phosibl. Lle y bo'n bosibl, mae'r gwasanaeth wedi hwyluso ymweliadau gan deuluoedd. Ymgynghorir â gweithwyr iechyd proffesiynol a gallant ymweld â'r cartref pan fo angen.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal da gan dîm o staff brwdfrydig. Mae system cynllunio gofal digidol newydd ar waith, a dywedodd y staff ei bod eu helpu wrth eu gwaith. Gwelsom nad oedd y cynlluniau gofal bob amser yn disgrifio'r unigolyn a'i anghenion yn ddigonol. Nid oedd un unigolyn a oedd yn cael gwasanaeth yn ymwybodol bod ganddo gynllun gofal, na'r hyn a oedd wedi ei nodi ynddo. Fodd bynnag, dywedodd wrthym fod ganddo gydberthynas dda â'r rheolwr a'i fod yn teimlo y gallai ddweud wrth y rheolwr beth yr oedd am ei gael. Nid oedd un aelod o deulu yn teimlo bod y gwasanaeth wedi ymgynghori ag ef ynghylch y gofal yr oedd ei angen ar ei berthynas, a nododd angen ychwanegol y dylid ei ddiwallu. Mae angen gwella'r broses o gofnodi ymgynghoriadau â phreswylwyr a'u cynrychiolwyr. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i wella'r broses o gynllunio gofal a dywedodd wrthym yr eir i'r afael â hyn.

Caiff anghenion iechyd y bobl eu cefnogi'n dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i gael cymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen. Dywedodd aelod o deulu wrthym ei fod yn cael gwybod am unrhyw faterion iechyd sy'n effeithio ar ei berthynas. Gwnaethom siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a ddywedodd wrthym fod y gwasanaeth yn rhagweithiol o ran sicrhau ymyriadau cynnar i ddiwallu anghenion iechyd. Dywedodd wrthym fod ganddo gydberthynas weithio dda â'r gwasanaeth, a oedd yn cymhwyso cyfarwyddiadau yn gyflym ac yn trosglwyddo unrhyw wersi a ddysgwyd er budd holl breswylwyr y cartref.

Mae gan y gwasanaeth fesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel gyda'r mesurau sydd ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar COVID-19 a sut i ddefnyddio Cyfarpar Diogelu Personol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am y mesurau sydd eu hangen i gadw pawb yn ddiogel. Mae gan y gwasanaeth archwiliad rheoli heintiau ar waith, sydd hefyd yn cofnodi'r camau sydd angen eu cymryd ac yn nodi pan fyddant wedi'u cwblhau.

Yr Amgylchedd

Mae systemau da ar waith i nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth. Mae unigolyn cynnal a chadw dynodedig ar waith, sy'n cynnal amrywiaeth o archwiliadau ac yn cwblhau gwaith atgyweirio pan fo angen. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod contractiwr wrthi'n glanhau'r cafnau y tu allan i'r adeilad.

Gwnaethom adolygu system y golchdy. Gwelsom fod dillad glân yn cael eu cadw uwchben dillad brwnt mewn rhai o'r cypyrddau dillad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y bydd biniau newydd yn cael eu gosod, a fydd yn gwella'r ffordd y caiff dillad brwnt eu storio. Dywedodd cynorthwydd y golchdy wrthym fod dillad brwnt yn cael eu casglu ar sawl adeg yn ystod y dydd, er mwyn sicrhau y cânt eu golchi'n brydlon.

Gwnaethom argymhell yn yr arolygiad diwethaf y dylai'r darparwr osod lifft arall. Er bod y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn nodi bod tri lifft, dim ond un sy'n gweithio, ac felly y bu ers tro. Gwelsom fod y ffaith mai dim ond un lifft sy'n gweithio yn achosi oedi ar rai adegau prysur o'r dydd. Er enghraifft, o ran cludo cinio i'r rhai nad ydynt yn bwyta yn y brif ystafell fwyta a symud cyfarpar codi a chario rhwng lloriau. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yn y cartref wrthym fod yn rhaid iddo aros cryn amser i gyrraedd yr ystafell fwyta o ganlyniad hyn. Gwnaethom drafod hyn â'r darparwr a dywedodd wrthym ei fod yn gweithio gyda'r cwmni lifftiau i ddod o hyd i'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn. Mae hefyd yn ystyried ffyrdd amgen o ddefnyddio'r ystafelloedd sydd ar gael i leihau'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y gwasanaeth.

gyhoeddi

Arwain a Rheoli

Mae gan y gwasanaeth lefelau staffio digonol i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Dywedodd y bobl y cawsom sgwrs â nhw wrthym eu bod yn cael gofal mewn ffordd ymlaciol, ac fel arfer ar amser o'u dewis. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt amser i wneud eu gwaith yn dda y rhan fwyaf o'r amser. Gwelsom fod y staff yn cael eu fetio'n briodol cyn dechrau eu cyflogaeth a'u bod wedyn cael hyfforddiant digonol i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o bynciau gorfodol, er enghraifft diogelu, codi a chario a dementia. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr hyblyg sy'n hawdd mynd atynt.

Mae gan y cartref ddatganiad o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth y gall pobl ddisgwyl ei gael. At ei gilydd, mae'r dogfennau'n rhoi disgrifiad da o'r gwasanaeth, ond mae angen diwygio'r wybodaeth am nifer y lifftiau sydd ar gael. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu ar waith, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd, ond rydym wedi argymhell y dylid ystyried ychwanegu rhagor o wybodaeth er mwyn egluro rhai pwyntiau.

Mae trefniadau da ar waith i adolygu'r gwasanaeth. Gwelsom fod adolygiad o ansawdd y gofal wedi cael ei gynnal ym mis Mai 2020. Dylai'r adroddiad gynnwys mwy o ddatganiadau o ran sut mae'r systemau sydd ar waith yn sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn ddiraffferth. Dywedwyd wrthym fod adolygiad arall yn cael ei gynnal, a bod safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, teuluoedd, staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu ceisio mewn ffordd newydd er mwyn ceisio gwella'r gyfradd ymateb.

Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol

Dim		
-----	--	--

Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith

Dim	
-----	--

Meysydd y mae angen eu gwella

Dim	
-----	--

Dyddiad Cyhoeddi 11/01/2021

**Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi**

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi